Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AL

04/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llanrug yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un agwedd a gytunwyd gyda'r pennaeth. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau darllen disgyblion

- Mae ethos yr ysgol ar gyfer datblygu darpariaeth a medrau darllen trwy ddiwylliant ysgogol yn gadarn.
- Mae gan arweinwyr weledigaeth a dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu wrth wella'r ddarpariaeth darllen a datblygu mwynhad disgyblion mewn darllen. Maent yn olrhain cynnydd darllen disgyblion yn ofalus, yn erbyn ystod o feini prawf pwrpasol. Mae hyn yn galluogi staff i gynnig cefnogaeth ddarllen fuddiol yn amserol.
- Mae gan staff adnabyddiaeth drylwyr o allu ac anghenion dysgu disgyblion. Maent yn cynllunio amrediad o weithgareddau pwrpasol er mwyn annog datblygiad ym medrau darllen disgyblion.
- Mae staff yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Drwy hyn, mae disgyblion yn adeiladu geiriau yn hyderus ac yn dechrau darllen testunau gwahanol at ddibenion pwrpasol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau yn effeithiol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd ac yn trafod ystod o destunau gyda hyder.

- Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen gyda rhuglder cynyddol yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod testunau ffuglen a ffeithiol yn wybodus. Maent yn cywain gwybodaeth yn effeithiol, ac yn trafod teimladau a bwriadau cymeriadau gyda deallusrwydd aeddfed.
- Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn ymgymryd â rolau arwain gwerthfawr. Maent yn hybu a chefnogi eu cyfoedion i ymarfer eu medrau darllen yn rheolaidd, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hynaf ddarllen gyda'r disgyblion ieuengaf.
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion, gan gynnwys rhannu disgwyliadau am ddysgu'r disgyblion ac wrth rannu pecynnau darllen er mwyn iddynt gefnogi eu plant adref.

## Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

- Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu medrau annibynnol disgyblion. Fel rhan o'r brosesau hunanwella, mae arweinwyr yn adnabod y cryfderau yn y ddarpariaeth a'r agweddau penodol sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i greu amserlen glir o welliannau parhaus. Mae hyn yn cynnwys cynnal hyfforddiant amserol i staff a datblygu ardaloedd dysgu ysgogol sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol.
- Yn ddiweddar, mae nifer o staff newydd yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y staff hyn yn cael dysgu proffesiynol pwrpasol ac amserol i gysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol.
- Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad ardaloedd allanol deniadol i'r disgyblion ieuengaf, sy'n hyrwyddo'r dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r cynllun gwella yn rhoi blaenoriaeth glir i ddatblygiad ardaloedd allanol y disgyblion hŷn, er mwyn cynnig cyfleoedd bwriadus iddynt ddatblygu eu medrau annibynnol yn yr awyr agored.
- Yn yr arferion gorau, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol am yr hyn maent yn ei ddysgu, gan gynnwys pa adnoddau ac offer maent am eu defnyddio. Wrth ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach, mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i sicrhau bod lefel yr her yn ymateb i anghenion dysgu pob disgybl yn fwriadus, fel eu bod yn datblygu eu holl fedrau yn gynyddol annibynnol dros amser.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612006

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol